Laugharne School
Orchard Park
Laugharne
Carmarthen
SA33 4TE
Tel 01994 427228
*email – head@laugharne.ysgolccc.cymru*

Ysgol Talacharn
Parc Y Berllan
Talacharn
Caerfyrddin
SA33 4TE
Ffon 01994 427228
*ebost – pennaeth@talacharn.ysgolccc.cymru*

School Website: www.laugharne.amdro.org.uk
School Twitter Account: @LaugharneSchool
Headteacher: Mrs Jayne Phillips - BA Ed. (Hons) NPQH

23/12/2025

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

**Hysbydiad ynghylch Penderfyniad y Corff Llywodraethol ac Aelod y Cabinet – Cynnig i newid ystod oedran yn Ysgol Gynradd WRh Talacharn**

Ar ddydd Mawrth, 23 Rhagfyr 2025, cymeradwyodd Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd WRh Talacharn ac Aelod y Cabinet y cynnig canlynol:

**Newid ystod oedran yn Ysgol Gynradd WRh Talacharn o 4-11 i 3-11 o 12 Ionawr 2026**

**Gwrthwynebiadau i'r cynnig –** Derbyniwyd un gwrthwynebiad.

Ystyriwyd y cynnig yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a nodwyd bod un gwrthwynebiad wedi dod i law ynghylch y cynnig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Mae'r Adroddiad Gwrthwynebu ar gyfer y cynnig uchod ar gael ar wefan yr ysgol drwy ddilyn y linc isod:

Adroddiad Gwrthwynebu

Wrth ddod i benderfyniad ar y cynnig, ystyriodd y Corff Llywodraethol ac Aelod y Cabinet y ffactorau canlynol fel y'u hamlinellwyd yn nogfen Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 fel a ganlyn:

## Ansawdd a safonau mewn addysg

Barn Estyn oedd bod y cynnig yn debygol o ddarparu darpariaeth ar gyfer plant 3–11 oed a'r safon sydd o leiaf yn gyfartal â'i gynnig 4–11 oed presennol. Mae'r

cynnig wedi'i ddatblygu yn unol â'r uchelgais i ddarparu'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl ifanc ac i wella mynediad at addysg blynyddoedd cynnar.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Wrth gymeradwyo'r cynnig hwn, roedd y Corff Llywodraethol ac Aelod y Cabinet o'r farn y byddai'r newid yn yr ystod oedran yn gwella'r capasiti i blant yn y gymuned leol a hefyd yn alinio Ysgol Gynradd WRh Talacharn â chynigion eraill yr Awdurdod Lleol yn unol â dileu'r Polisi Codi 4.

**Adnoddau addysg**

Mae'r Corff Llywodraethol ac Aelod y Cabinet wedi ystyried bod Ysgol Gynradd WRh Talacharn yn cael ei hariannu yn unol â Pholisi Ariannu Teg y Sir a bydd yn derbyn adnoddau ar yr un sail ag unrhyw ysgol arall yn y sir, yn seiliedig ar niferoedd disgyblion.

Cysylltwch â Mrs Jayne Phillips ar y manylion cyswllt uchod os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen gwybodaeth bellach arnoch.

Mrs Jayne Phillips
**Pennaeth**

Laugharne School
Orchard Park
Laugharne
Carmarthen
SA33 4TE
Tel 01994 427228
*email – head@laugharne.ysgolccc.cymru*

Ysgol Talacharn
Parc Y Berllan
Talacharn
Caerfyrddin
SA33 4TE
Ffon 01994 427228
*ebost – pennaeth@talacharn.ysgolccc.cymru*

School Website: www.laugharne.amdro.org.uk
School Twitter Account: @LaugharneSchool
Headteacher: Mrs Jayne Phillips - BA Ed. (Hons) NPQH

23/12/2025

Dear Parent / Guardian,

**Notification of Governing Body and Cabinet Member Decision –**
**Proposal to change the age range at Laugharne VC Primary School**

On Tuesday, 23 December 2025, the Governing Body of Laugharne VC Primary School and the Cabinet Member approved the proposal as follows:

**to change the age range at Laugharne VC Primary School from 4-11 to 3-11 from 12 January 2026**

**Objections to the proposal -** One objection was received.

This proposal was considered in accordance with the requirements of the School Organisation Code (2018) of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and noted that one objection had been received in respect of the proposal during the statutory objection period.

The Objection Report for the above proposal is available to view on the school's website by following the link below:

Objection Report

In determining the proposal, the Governing Body and Cabinet Member took into account the following factors as outlined in the School Organisation Code 2018 as follows:

**Quality and standards in education**

It was Estyn's opinion that the proposal is likely to deliver provision for 3–11 year olds at a standard at least equal to its existing 4–11 offer. The proposal has been developed in line with the aspiration to provide the best possible start in life for young people and to improve access to early years education.

**Need for places and the impact on accessibility of schools**

In approving this proposal, the Governing Body and Cabinet Member believed that the change in age range would improve the capacity for children in the local community and also align Laugharne VC Primary School with other Local Authority proposals in line with the removal of the Rising 4s Policy.

**Resourcing of education**

The Governing Body and Cabinet Member have considered that Laugharne VC Primary School is funded in accordance with the County's Fair Funding Policy and will receive resources on the same basis as any other school within the county, based on pupil numbers.

Should you have any queries or require any further information please contact Mrs Jayne Phillips on the above contact details.

Mrs Jayne Phillips
**Headteacher**